YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1886. [RHIF 54.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DYN.

(Parhad o rifyn Rhagfyr, tud. 269.)

WELE ni, yn awr, yn dychwelyd at lyfr Fiske, sef "The Destiny of Man viewed in the Light of his Origin," gan obeithio fod eich darllenwyr wedi rhoddi yr ystyriaeth dyladwy mor bell. Yr ydym wedi dylyn y pwnc hyd at yr adeg pan y mae yr elfenau *psych*aidd wedi dyfod yn fwy pwysig nâ'r rhai *phys*aidd, ac yn fwy dylanwadol yn nghynnydd y creadur, a phan y mae gwawriad ymwybyddiaeth yn cael ei ganlyn gan gynnydd cyflym yn maint a ffurf yr ymhenydd; pan y mae tymhor cyn-enedigol y creadur yn nghyd â'r tymhor o analluogrwydd ar ol geni wedi eu hestyn. Y mae y creadur yn dechreu bywyd yn faban, gydag ymhenydd rhanol ddadblygedig yn cynnrychioli cynneddfau â adewir i'r profiad unigol i'w dwyn allan a'u cyfnewid. Gyda dechreuadau mabandod daeth gwawriad cyntaf bywyd ymwybodol cyffelyb yn ei natur i fywyd ymwybodol bodau dynol, a daeth, ar ran rhieni, y dechreuad o'r teimladau a'r gweithrediadau hyny nad ydynt yn cyfeirio yn hollol at hunan. Yn mhellach, y mae tymhor mabandod wedi dyfod yn dymhor cyfnewid cyflym. Yn mhlith creaduriaid israddol, ychydig, os dim, welir o gynnydd o oes i oes. Mae yno gynnydd yn y bywyd unigol, ond ni welir yno y cynnydd cyflym yn yr hiliogaeth a geir yn y creaduriaid hyny lle mae y gallu *psych*aidd (eneidiol) yn elfen fwyaf pwysig. Dichon fod yno gynnydd, ond ychydig yw, fel nad ydym yn gallu dywedyd fod cwn ein canrif ni yn ddim callach nâ'r cwn yn amser Dafydd ab Gwilym. Priodolir cynnydd y gallu i ddysgu ac i gynnyddu sydd mewn dyn,

mewn rhan, i'r estyniad o dymhor mabandod; a dywedir fod epaod digynffon yr Indian Archipelago, i bob ymddangosiad, yn awr ar yr un llwybr cynnydd ag y daeth dyn ar hyd-ddo. Mae y gwahaniaeth mawr rhwng y dyn a'r epa, heddyw, yn fwyaf yn y gwahaniaeth sydd yn arwynebedd ymhenydd y ddau. Dyna'r ddau beth mawr yn nghynnydd dynoliaeth sydd wedi myned megys law yn llaw, sef estyniad tymhor mabandod a chynnydd arwynebedd yr ymhenydd. Mae y cynnydd yna wedi myned yn y blaen am oesoedd nas gellir dychymmygu pa nifer. Nid yw pigdyrau'r Aifft yn ymddangos ond megys gwaith doe, pan feddyliom am ogof-ddynion y cyfnod ia yn ngorllewin Ewrop, y rhai a grafent eu darluniau â thamaid o faen callestr ar ddarnau o gyrn y bwch-danas; ac etto, am gyfnod daearegol cyfan cyn ymddangosiad yr ogof-ddynion yma, yr oedd bodolyn a safai yn syth ar ddwy coes, ac yn gwisgo ymddangosiad allanol dyn wedi bod yn crwydro hwnt ac yma ar hyd wyneb y ddaear, ac yn gosod ei farc arni mewn modd nad oedd un creadur arall erioed wedi gwneuthur, ac etto yn rhy ddiffygiol ei ddeall i adael coffadwriaeth ysgrifenedig o'i feddyliau a'i waith.

Gwelir heddyw yn fwy amlwg nag erioed y fath chwyldroad mawr gafodd ei gychwyniad pan gyfyngodd "y dewisiad naturiol" ei weithrediadau at arwynebedd yr ymhenydd. Mae y dadblygiadau wedi bod yn aml yn fawrion ac yn nerthol yn y cyfnewidiadau a gymmerasant le o bryd i bryd; ond nid oes yr un wedi bod mor fawr ac mor bwysig a'r olaf hwn, sef y cyfeiriad newydd a gymmerodd y "dewisiad naturiol."

Yn y dechreu, nid oedd y nodweddion meddyliol (y bywyd *psych*aidd) ond math o ychwanegiad at fywyd y corff. Yr oedd bywyd yr anifail, y pryd hwnw, yn cael ei gyfyngu bron yn hollol at ochelyd y gelyn, sicrhau bwyd, a pharhau yr hiliogaeth, ac nid oedd a fynai'r cof, y rheswm, y teimlad, yr ewyllys, y fath ag oeddynt, a dim, braidd, ond â chyrhaedd yr amcanion hyn; ac er fod rhan fawr o'r bywyd dynol yn cymmeryd yr un cyfeiriad, etto, fel y mae y bywyd hwnw yn esgyn grisiau gwareiddiad, y mae amcanion ereill gwahanol iawn eu natur yn fynych yn cymmeryd eu lle. Y mae hir amser, bellach, er y dywedwyd nad yw dyn yn byw ar fara yn unig; ac fe aiff yr amcanion hyn ar gynnydd gyda pherffeithiad yr hiliogaeth. Er ys oesoedd a chenedlaethau, yr ydym wedi gweled miloedd nad ydynt wedi ystyried eu cyrff yn eu hymdrech ar lwybr dyledswydd—y merthyr er mwyn gwirioneddau ysprydol, a'r gwyddonwr er mwyn sicrhau gwybodaeth o ddeddfau natur. A gawn ni ddim credu fod adeg i dd'od pan y bydd rhyfel a throsedd wedi darfod am byth? pan y bydd clefyd yn mron wedi ei orchfygu? &c.

Oddiyma y daw dechreuad a seiliau cymdeithas a moesoldeb—oddiar ddadblygiad *psych*aidd dynoliaeth. Wrth sylwi ar ddechreuad dyn, allwn ni ddim peidio sylwi ar ddechreuad cymdeithas ddynol. Ceir y cysgod o hyny yn y byd anifeilaidd, a'r cysgod hefyd o'r syniadau moesol. Unawd cyntaf cymdeithas ddynol yw y teulu, a thrwy sefydliad perthynasau teuluaidd pennodol a pharhaol y cymmerwyd y

cam cyntaf sydd wedi dyrchafu dyn yn gymdeithasol uwchlaw safle torf o epaod. Cyrhaeddwyd y *point* hwnw trwy estyn tymhor anallu mabandod yr hwn a geir yn gydfynedol â chynnydd graddol deall yn mhlith cyn-hynafiaid y teulu dynol. Yn ddiweddarach, wedi geni amryw blant i'r un teulu, yr oedd hyny yn peri fod tad a mam, brawd a chwaer, yn cael eu cylymu mewn modd na welwyd erioed o'r blaen, a rhoddwyd i'r syniad moesol yn awr ei gyfeiriad pennodol. Gyda *genesis* y teulu, gellir dywedyd fod creadigaeth dyn mewn ystyr wedi ei gwblhau,—y cynnydd yn arwynebedd yr ymhenydd, yr estyniad yn nghyfnod mabandod, y gallu mwy at welliant, cyfansoddiad pennodol y teulu, y gallu i farnu gweithredoedd fel drwg neu dda yn unol â rhyw safon arall heblaw dymuniad personol neu hunangarol,—dyma'r priodoleddau ydynt yn sylweddol yn gwahaniaethu dyn oddiwrth greaduriaid ereill, ac y mae hyn oll yn ffrwyth y chwyldroad mawr a gafodd ei ddechreuad pan gyfyngodd "dewisiad naturiol" ei hunan at amrywiaethau y meddwl, gan esgeuluso amrywiaethau y corff. Canlyniad uniongyrchol hyny oedd cynnydd yn yr ymhenydd, a hyny a gynnyddodd tymhor mabandod, a'r tymhor hwnw a roddodd ei ddechreuad i'r teulu, &c. A'r creadwr hwn, wedi ei ddadblygu felly, sydd wedi dyfod yn arglwydd ar y ddaear mewn ystyr na fu neb o'i ragflaeniaid; ac o hyn allan, gwaith dadblygiad, mor bell ag y mae a fyno'r blaned hon, fydd perffeithio y cynnyrch olaf a mwyaf rhyfeddol hwn o'r gallu creadigol.

Nid oedd creadigaeth dyn, mewn un modd, yn greadigaeth bod perffaith. Un o nodweddion mwyaf hanfodol dyn yw ei allu i ymwellhau, ac oddiar ei ymddangosiad ar y ddaear, mae y cyfnewidiadau ynddo wedi bod yn aruthrol. Mae mwy o wahaniaeth rhwng maint ymhenydd yr uwchaf a'r isaf o ddynion nag sydd rhwng yr isaf o ddynion a'r uwchaf o epaod; mae y gwahaniaeth rhwng rhygniad *(creasing)* arwynebedd ymhenydd Shakespeare, ac un o anwariaid Awstralia, hanner cant o weithiau yn fwy na'r gwahaniaeth rhwng ymhenydd yr Australiad ac eiddo *ourang-outang*, ac y mae'r dadblygiad *psych*aidd hwn yn y dyn yn debyg o fyned yn y blaen yn y dyfodol megys y mae wedi myned yn y blaen yn y gorphenol. Trwy lwybr hir o ymdrech ac o ymryson y mae dadblygiad wedi dwyn oddiamgylch y safle presenol. Am ganrifoedd, bellach, fodd bynag, y mae yr elfen ymrysonol wedi bod yn cael ei graddol ddadwreiddio, a thrwy y teimladau arallaidd *(altruistic)** yn benaf y mae hyny wedi cael ei ddwyn oddiamgylch. Mae y teimladau arallaidd (cymharer y rheol euraidd—Car dy gymmydog fel dy hunan) yn wrthwynebol i yspryd rhyfel. Yn hyn, nid oedd dyn ar y cyntaf yn ddim gwell na'r anifail—yn ddiamheu ei fod y mwyaf cyfrwys a'r mwyaf dychrynllyd o honynt. Yr oedd sicrhau bwyd yn angenrhaid penaf bywyd, ac yr oedd "ymdrech am fodolaeth," y pryd hwnw, yn golygu ymryson ac ymladd parhaus. Nid oedd dim mwy o'r teimlad sydd yn awgrymu y pechod o ladrata i'w gael mewn dyn,

* Egoism and Altruism. Dynoda y cyntaf gyfeiriad y meddwl a'r teimlad at y *Fi* (Myfiaeth), a'r olaf eu cyfeiriad at *Arall*.

y pryd hwnw, nag mewn teigr neu flaidd. Ond yr oedd y teulu yn eithriad, ac yn galw am gydweithrediad heddychlawn, ac yn yr helaethiad o'r syniad teuluaidd y gosodwyd seiliau gwareiddiad gwell.

Gyda chynnydd deall, daeth gwelliant yn y modd i sicrhau angenrheidiau bywyd, ac ar amser heddwch, dysgodd dynion i fagu anifeiliaid, a gwrteithio y ddaear, &c. Yr oedd y teuluoedd yn ffurfio llwythau, a'r llwythau oeddynt wedi dysgu hyn yn gallu gorchfygu llwythau ereill; ac yr ydym yn cael elfenau teyrnasoedd bychain, ac mewn amser, cawn deyrnasoedd ac ymerodraethau mawrion yn ymddangos. Mae y rhyfeloedd yn parhau o hyd, ond nid yn yr un modd a chynt; ac y mae cyssylltiad teuluoedd a llwythau i ffurfio teyrnasoedd ac ymerodraethau wedi bod yn brif waith gwareiddiad ar yr ochr wleidyddol, ac fel holl waith dadblygiad, yn raddol ac yn afreolaidd, y mae wedi myned yn y blaen. Mae cyrff mawrion gwleidyddol wedi codi mewn tair ffordd—(1) *goresgyniaeth* heb *ymgorfforiaeth*, megys yn Persia, ac yn yr Aifft. Y boreuaf a'r anmherffeithiaf o'r tri ydyw hwn. Yr ail yw *goresgyniaeth gydag ymgorfforiaeth.* Fel hyn y cododd yr ymerodraeth Rufeinig, ac y cawd cynllun o gymdeithas ar radd uchel a pherffaith. Nid oedd hwn, modd bynag, yn fwy na'r cyntaf—yn absenoldeb dyfais syml cynnrychioliad—ond llywodraeth, mwy neu lai, seiliedig ar drais a gormes. Yr oedd yr elfen rhyfelgar yn hanfodol i'r ddwy yma; ond yn y drydedd, a'r fwyaf perffaith, sef *cymdeithasiaeth* (*federation*), nid yw yn angenrheidiol. Y mae y llywodraeth yn seiliedig ar ewyllys y bobl. Gyda pherffeithiad y cynllun hwn, daw rhyfel yn beth llai cyffredin, ac yn gynnar neu yn ddiweddar, daw i'w derfyn, pan y penderfynir annealldwriaeth rhwng teyrnasoedd, megys rhwng personau, trwy rywfath o gyflafareddiad.

Y mae gwaith mawr "Dewisiad Naturiol" mewn dyn yn cyfeirio at hyn, dyddimu yr etifeddiaeth fwystfilaidd neu anifeilaidd. Dyma ffaith o ardderchogrwydd dihafal. Ni ddichon geiriau wneuthur cyfiawnder â'r ffaith hon. Mae yn golygu fod y dinystr cyffredinol ar fywyd sydd hyd yma wedi nodweddu dadblygiad i ddyfod i derfyn yn y penaf o greaduriaid Duw; fod yr "ymdrech am fodolaeth," ar ol dwyn allan y cynnyrch ardderchog hwnw o'r gallu creadigol, yr Enaid Dynol, wedi cyflawnu ei waith, ac yn y man, i derfynu. Dyma ystyr cynnydd dynoliaeth, bwrw yr anifail allan o'r dyn, difodi yr epa a'r teigr yn ei natur. Mae duwinyddiaeth wedi dywedyd llawer am bechod gwreiddiol. Nid yw y pechod hwnw yn ddim mwy na llai na'r etifeddiaeth anifeilaidd y mae pob dyn yn gario yndda ei hun; a'r cynnydd mewn dadblygiad, myned yn y blaen yw ar lwybr gwir iachawdwriaeth. Rhoddir gwerth newydd, felly, i'r bywyd dynol. A gall y proffwyd diweddar, wrth ddefnyddio dulliau gwyddor, gyhoeddi etto fod teyrnas nefoedd yn nesâu. Gweithiwch chwi, gan hyny, yn gynnar ac yn ddiweddar, er parotoi ei ddyfodiad.

Yn awr, beth ydyw y genadwri yma o eiddo y proffwyd diweddar ond Cristionogaeth bur? Nid cruglwyth o athrawiaethau duwinyddol wedi eu tyru yn nghyd gan Athanasius ac Austin a Chalfin, ond y Gristionogaeth wirioneddol a sylweddol a ddaeth yn

gyflawn o newyddion da i ddynion o wefusau yr Iesu ei hunan a Phaul. Pa bryd o'r blaen y gwelwyd y fath ystyr yn amgyffrediad Paul yn nghylch y ddau ddyn o'i fewn yn brwydro â'u gilydd, chwantau y natur anifeilaidd, a'r dyhead duwiol am fywyd uwch? Pa bryd o'r blaen y cawsom y fath help i ystyr y bregeth ar y mynydd? "Gwyn eu byd y rhai addfwyn, &c." I lawer, y mae geiriau Crist wedi ymddangos yn ffolineb, ac y maent wedi eu gwawdio fel rhywbeth rhy dda i'r byd isod yma. Ond fe wyddai'r Meistr beth oedd yn feddwl, ac nad oedd yr amser etto yn addfed, ei fod ef wedi dwyn, nid heddwch, ond cleddyf. Etto i gyd, fe bregethodd yr efengyl hono o lawenydd mawr, sydd i'w sylweddoli yn y man trwy ymdrechion dynoliaeth, a chyhoeddodd egwyddorion yn ateb i'r amser sydd i dd'od.

A fu erioed syniad mwy ffol nâ'r un sydd yn dysgu fod athrawiaeth dadblygiad yn iselhau dynoliaeth? Athrawiaeth sydd yn dysgu yn amlwg ac am y tro cyntaf mai perffeithiad dyn yw y *goal* tuag at yr hwn y mae gwaith natur wedi bod yn tueddu o'r cychwyn. Gwelwn yn eglur, yn awr, fod ein gwybodaeth newydd yn eangu yn ddirfawr wir ystyr y bywyd dynol, ac yn peri iddo ymddangos yn fwy nag erioed yn brif amcan y gofal Dwyfol, cynnyrch perffaith y gallu creadigol sydd yn cael ei amlygu trwy yr oll o'r bydysawd adnabyddus.

Ac o berthynas i bwnc y bywyd dyfodol, pa un a ydyw dynoliaeth, wedi'r gwbl, i fwrw ei dynged gyda'r glaswelltyn sydd yn gwywo, a'r anifeiliaid a ddifethir, y mae rhediad yr ymresymiad yn nghyfeiriad yr ateb cadarnhaol i ofyniad Job, "Os bydd gwr marw, a fydd efe byw drachefn?" Nid tebyg y gellir byth roddi i'r pwnc brawf gwyddonol. Nid yw y *data* angenrheidiol genym. Rhaid iddo byth aros yn bwnc crefydd yn hytrach nag yn bwnc gwyddor. Rhaid iddo aros yn un o'r pynciau hyny y gallaf fi ddal argyhoeddiad rhesymol o berthynas iddo, ac etto heb allu argyhoeddi fy nghymmydog. Os gallwn ni edrych ar ddyn fel cynnyrch perffaith y gallu creadigol, a phrif wrthddrych y gofal Dwyfol, nis gwn sut y gellir yn rhwydd gochelyd y casgliad nad yw gyrfa yr enaid ddim yn cael ei orphen ar y ddaear.

Fe ddaw y dydd, yn ddiamheu, pan y diflana'r nefoedd fel llen, ac y tawdd yr elfenau gan wir wres. Mor fychan yw y gwerth esyd natur ar ffurfiau darfodedig mater. A'r cwestiwn, wedi'n, yw hyn: A yw nodweddion neu deithi ysprydol uwchaf dyn, i'r hwn y mae cymmaint o'r gallu creadigol wedi myned, i ddiflanu gyda'r rhai ereill? A yw'r holl waith yma i fyned am ddim? A ydym i edrych ar waith y Creawdwr fel yn debyg i waith plentyn, yr hwn sydd yn adeiladu ei dŷ o goed bychain, er mwyn y pleser o'i fwrw i lawr drachefn. Er dim a ddichon gwyddor ddywedyd wrthym, gall fod felly, ond nis gallaf fi weled rheswm da dros gredu y fath beth. Ar yr olwg yna, y mae dychymmyg neu *riddle* y bydysawd yn dyfod yn un cwbl ddiystyr. Paham y mae mwy o alw arnom i fwrw heibio ein cred yn mharhad yr elfen ysprydol mewn dyn nag sydd arnom i fwrw heibio ein cred yn nghyssondeb natur? Credwn yn anfarwoldeb yr enaid, nid fel

ffaith brofedig gan wyddor, ond fel gweithred o ffydd (*a supreme act of faith*) yn rhesymoldeb gwaith Duw.

Ar yr olwg hon yn unig, ymddengys i mi y dichon rhesymoldeb y bydysawd, yr hwn sydd yn parhau yn mhell uwchlaw ein gallu meidrol ni i'w amgyffred, ddal ei dir. Mae rhai meddyliau nad ydynt yn agored i ystyriaethau o'r fath yma, a byddant felly byth, feallai. Ond ar seiliau felly, os nad ar ryw rai ereill, y mae y ffydd mewn anfarwoldeb yn debyg o gael ei derbyn gan bawb ag ydynt yn edrych ar *genesis* y teithi ysprydol uwchaf mewn dyn fel cyrchfan gwaith creadigol natur. Mae yr olwg yma wedi goroesi y chwyldroad Copernicaidd mewn gwyddor, ac wedi goroesi y chwyldroad Darwinaidd. Os gwir yr erthygl yma, mae Darwiniaeth wedi gosod dynoliaeth ar binacl uwch nag erioed. Goleuir y dyfodol i ni gan liwiau dysglaer gobaith. Diflana ymryson a thristwch. Mae breuddwyd y bardd, gwers yr offeiriad a'r proffwyd, ysprydoliaeth y cerddor, yn cael ei gadarnhau yn ngoleuni gwybodaeth ddiweddar; ac fel yr ydym yn ymwregysu ar gyfer gwaith bywyd, gallwn edrych yn y blaen at yr amser pan yn yr ystyr mwyaf gwir, y bydd teyrnasoedd y byd hwn wedi dyfod yn deyrnas Iesu Crist.

T. C. U.

PROFEDIGAETH DAFYDD PRICE.

Yr oedd Dafydd Price yn fachgen da, ac yn ysgolhaig da, pan o gylch deuddeg oed. Ond am nad oedd wedi cael ei fendithio â meddwl hollol foddlongar, cafodd ei demtio yn dost. Achosid hyn, mwyaf tebyg, gan ei dlodi, a'i fod yn blentyn i rieni oeddynt wedi bod mewn amgylchiadau bydol esmwyth a chysurus; ond gan iddo golli ei dad pan yn faban, nid oedd ganddo neb i ofalu am dano, a'i ddwyn i fyny, ond ei fam weddw, yr hon oedd wedi ei gadael yn hollal amddifad o bethau da y byd hwn.

Ymdrechodd hon yn galed, ac aeth yn mlaen yn weddol dda wrth wneyd bronwisgoedd (*stays*). Rhentai allan y rhan fwyaf o'i thŷ bychan. Gwisgid a gofalid am Dafydd, fel pe buasai ei dad yn fyw, a phan yn ddigon hen, danfonwyd ef i'r ysgol, er y carai yr un bychan, er mwyn ei fam, i fyned i weithio er ennill ychydig geiniogau er ei chynnaliaeth. Ond daeth gofidiau a thrallodau ar warthaf y weddw. Y mae y dodrefn yn sicr o dreulio allan, hyd y nod pan y cymmerir y gofal mwyaf o hono, ac yn y cyffredin, nid yw y bobl sydd yn byw mewn tai wedi eu dodrefnu ar gost creill ddim mor ofalus ag y gallent, ac y dylent fod. Pan y mae dodrefn yn gwaethygu, nid yw pobl fyddo wedi cymmeryd yr ystafelloedd yn foddlon talu llawer am danynt. Gweithiai y weddw hon yn galed, a phoenai ei phen i bwrcasu tamaid o lawrlen newydd i'w osod yn yr ystafell, i wella ychydig ar ei hymddangosiad.

Gan ei bod yn gall, yr oedd yn ofni dyled, oblegyd gwyddai fod dyled yn dwyn perygl. Nid eiddo ein hunain yw yr hyn nad ydym wedi talu am dano. Etto, anturiai y perygl, a mynodd rhai pethau newyddion, am y rhai yr oedd i dalu swm bennodol bob wythnos. Cadwodd i fyny ei thaliadau dros beth amser yn rheolaidd, a gosododd hyspysiad yn ffenestr y parlwr ei fod ar rent, ond ychydig, mewn cymhariaeth, sylwai arno; daethai pobl i mewn, ar rai amserau, i gael golwg ar y lle, a dywedent y buasent yn meddwl am dano yn ol llaw, ac yna, yn myned ymaith.

Yna, yr oedd ganddi i dalu ei rhent, ac ni allai gael dim arian, ac oblegyd hyny, yr oedd wedi rhoddi i fyny i anobaith, a braidd myned allan o'i phwyll. Cymmerwyd ymaith ei dodrefn gan ei harlwydd, oddieithr ychydig ned oeddynt o fawr gwerth, a chafodd ei gorfodi i ymadael â'i thŷ, ac i fyned i le mwy gwael, ac yna, ymroddodd gydag egni adnewyddol i wneuthur bronwisgoedd.

Gwyddai Dafydd am yr holl drallod a'r gofid yma, a mynych y dymunai gael lle a chyfle i gynnorthwyo ei anwyl fam ag ychydig ennill; ond cadwai hi ef o hyd yn yr ysgol, a meddyliai mai hyny oedd oreu, ar y cyfan, i bob un o honynt yn y pen draw.

Ac yn awr, dechreuodd temtasiwn Dafydd. Gwelai fod ei fam yn gwaelu mewn iechyd a nerth; gwyddai fod ei hymborth yn dyfod yn brinach—nid oblegyd y gofalai gymmaint am dano ei hunan; gwyddai fod gofynwyr celyd yn ei haflonyddu, a'i fod ef yn cael ei ddanfon i'r ysgol yn lân a gweddaidd bob dydd, er fod ei ddillad yn llwmhau yn gyflym, etto, deuai efe yn mlaen mewn dysgeidiaeth yn fwy cyflym na neb o'i gyfoedion.

Ar rai prydiau, yr oedd yn cael ei demtio yn galed i wrthsefyll eirchion ei fam, a mynu ei ffordd ei hunan. Gwelai lawer o grytiaid, agos yr un faint ag yntau, yn ennill llawer o geiniogau wrth werthu papyrau, a myned ar negeseuon dros ereill, ac ar gyfrif hyny, yr oedd yn synu at amynedd ei fam, a braidd na thueddid ef, ar rai prydiau, i ddweyd yr hyn na ddylai. Fel oedd ei fam yn dyfod yn fwy gwelwlas a gwanaidd, yr oedd profedigaethau Dafydd yn dyfod yn gryfach, cryfach o hyd. Paham, gofynai, yr oeddynt i fod yn dlawd?

Blinid y bachgen gan feddyliau drwg gyda golwg ar eiddo ereill. Tynai yn ol oddiwrth y cyfryw, fel megys oddiwrth rhyw greaduriaid ysglyfaethus oeddynt ar ymosod arno; ond er pob peth, yn ymgynnyg oeddynt i'w feddwl fel profedigaethau chwerw.

Ar fin Nadolig, gadawodd ei fam yn y tŷ yn wael iawn ei hiechyd, ac yr oedd ei brecwast wedi bod yn hynod brin y boreu hwnw. Yr oedd yn drwmgalon, er iddo ymgymmeryd â'i astudiaeth gyda'i egni arferol, gan eistedd ar ben uwchaf ei ddosparth—pob un o'r cyfryw, er islaw iddo ef mewn dysg, oeddynt ddeg gwell nag ef gyda golwg ar angenion y corff—yr oeddynt yn gallu myned adref at dadau a mamau oeddynt yn gwneyd yn dda, ac yr oedd yn gwybod hefyd y buasent hwy yn cael ciniaw dwym, flasus, pan gyrhaeddent eu cartrefleoedd. Yn falch o'i sefyllfa yn yr ysgol, teimlai yn druenus, fel y meddyliai am ei fam dlawd a'i bwrdd difwyd.

Wedi bod gwaith yr ysgol drosodd, troai ei wyneb adref, ac ymddangosai pob peth yn y masnachdai yn brofedigaethus iddo. Gwelai aelodau mawrion o gig gan y cigyddion, torthau gwynion braf o fara gyda'r pobyddion, arogl dymunol tê a choffi yn y Coffi Tafarn, a gwisgoedd prydferth yn ei olwg ef braidd ar bob tu; a pharodd y cyfryw iddo fod yn ddigalon a llidus braidd, a gosododd ei feddwl ar waith.

"Paham," meddai, "na chelai fy mam ei phorthi mor dda a phobl ereill? Y mae hi yn sefyll mewn angen am fwyd, a gosodai ymborth maethlon fywyd newydd ynddi; a phaham na chelai fy mam ei hamwisgo mor dda a'r foneddes draw? A phaham y mae yn rhaid i ni fod mor drist ac annghysurus?"

Yr oedd y foneddes y syrthiodd ei lygad arni yn un brydferth dros ben, ac wedi ei gwisgo yn hardd a golygus. Yr oedd ei *furs* yn gostus, ei menyg yn ffitio ei dwylaw teneu i'r dim, a chyffrodd eiddigedd y bachgen. Meddyliai ef am ei fam yn plethu ei breichiau teneu a'i bysedd noethion, yn agored i oerni y rhew, o dan wddflen ysgafn, fel yr aethai allan â'i gwaith, neu i ddysgwyl am waith.

Fel oedd y foneddes yn dynesu at dŷ mawr dangosiadus, yn y rhan fwyaf ffasiynol o'r dref, syrthiodd rhywbeth i lawr o'i llaw.

Pwrs pert annghyffredin oedd.

Gwelodd y bachgen llygadlym ef, a'r foment nesaf yr oedd y pwrs yn ei law. Teimlai y pwrs fel tân llosgadwy—chwildroai ei ymhenydd. Meddyliai dros foment am giniaw gyflawn faethlawn y Nadolig y gallasai ei gynnwysiad bwrcasu i'w fam ac yntau. Dros foment, yr oedd yn lleidr—yn ei galon. Yna, megys ar darawiad llygad, chwyrnellodd y temtiwr ffwrdd oddiwrtho, canodd y gloch yn nerthol, a mynodd wared o'r brofedigaeth.

Nid oedd y foneddes yn gwybod dim am ei cholled, ond ymddangosai yn falch i'w gael.

"Yr ydych yn fachgen da," ebe hi wrtho yn y fath lais melus a swynol, yr hwn a swniai fel miwsig; "ond ni allaf eich gwobrwyo yn awr—y mae y pwrs yn wâg, fel y gwelwch," ebe hi yn wylaidd.

"Nid wyf fi yn teilyngu yr un wobr, ma'm."

"Yn awr, boddiwch fi," ebe y foneddes, gan roddi carden iddo, a dywedyd, "trwy ddyfod i'r cyfeiriad yma erbyn pump o'r gloch y prydnawn hwn, a gofynwch am Miss Turner. Dyna, nac annghofiwch. Dydd da i chwi, a diolch i chwi." . . . . Agorodd morwyn y drws, ond cyn i'r foneddes ei ollwng allan, trodd a gwenodd ar y bachgen mor angylaidd, fel yr ymddengys i'r cyfryw gymmeryd pob drwg ymaith o'i galon.

Gan osod o'r neilldu y garden yn ofalus, brysiodd Dafydd adref, ac yno safodd yn syn. Ymddangosai pob peth fel wedi ei gyfnewid oddiar pan oedd wedi eu gadael yn y boreu. Yr oedd tân fflamiog yn yr aelwyd, llian wedi ei daenu dros y bwrdd; yr oedd amryw barseli bychain yno, a'i fam yn ymddangos yn drwsiadus i'w ryfeddu, ac yn edrych yn hynod siriol—yr oedd ymddangosiad o ddysgleirdeb ar bob peth o'i hamgylch, yr hyn barodd i Dafydd rwbio ei lygaid, i argyhoeddi ei hun ei fod yn *wir ar ddihun.*

"Beth, mam!"

"Ah. gellwch yn dda synu, ond y mae pob peth yn sylweddol a gwir. Y mae merch hen gymmydog a noddwr eich tad wedi ein cael ni allan, ac wedi gwneyd hyn oll. Duw a'i bendithio hi a'i theulu."

"Boneddes, mam?"

"Ie, mor wir foneddig a sangodd daear erioed—Miss Turner. Oni chlywaist erioed am dani?"

Trodd y bachgen yn oer, ac yna yn dwym.

"Fy machgen, a wyt ti yn ddall? Beth yw'r mater?"

"Na, na, mam, ond yr wyf wedi ei gweled, y Miss Turner yna. Collodd ei phwrs, codais inau ef, a rhoddais ef iddi. Rhoddodd ei henw i mi, ac yr wyf i fyned yno heno.

Ei phwrs! Mor rhyfedd! Dangosodd ef i mi, a dywedodd ei bod yn ei garu, am mai pwrs ei chwaer farw ydoedd; ac yna arllwysodd yr oll oedd ynddo.

Meddyliodd Dafydd a gawsai adrodd ei brofedigaeth fawr? Na. I beth y poenai hi? Fe ddywedai wrth Miss Turner ei hunan. Yn y prydnawn, dywedodd y cwbl wrthi. Atebodd hithau mewn modd a'i gwnaeth ef i deimlo yn gryf iawn.

Treuliodd y fam a'r mab Nadolig dedwydd iawn, ac o hyny allan cafodd y Priceiaid amser da. Gosodwyd hwy mewn lle cyssurus, anogwyd y weddw i geisio am well gwaith; a chynted y gorphenodd Dafydd ei ysgol, cymmerwyd ef fel clerc yn swyddfa Mr. Turner. Dydd hapus i Dafydd oedd y dydd y trosglwyddodd ei *wages* cyntaf i'w fam, a'r dwfr yn gwlychu ei hamrantau, cusanodd ef a dywedodd:—

"Yr Arglwydd, yr hwn a'm gwaredodd rhag pob drwg, a'th fendithio di, fy machgen!"

Ac meddai Dafydd yn isel ac yn wylaidd, "Ac a'm cadwo rhag pob profedigaeth."

C. F. (L.)

Y TADAU PRESBYTERAIDD.

Yr ydym yn amheus weithiau a deimlir cymmaint o ddyddordeb genym yn ein tadau a'u hanes ag a ddylid. Mae ein hawydd gymmaint am fyned yn mlaen, fel yr ydym mewn perygl o annghofio yr help a gawsom i'n dwyn lle yr ydym. Da yw i ni fyned yn mlaen, a rhwydd hynt i'r sawl sydd yn ymdrechu yn y cyfeiriad hwnw, cyhyd ag y byddo ei ymdrech yn deg. Yr ydym wedi darllen llyfr newydd Mr. Jeremy,* yr hwn sydd yn dal cyssylltiad â'r gorphenol gyda dyddordeb mawr

* Presbyterian Fund and Dr. Williams's Trust, with biographical notes of the Trustees, and some account of their academies, scholarships, and schools, By Walter D. Jeremy, M.A., Esq., Barrister-at-Law, the Treasurer of the Presbyterian Fund.—Williams and Norgate, 1885. [Price 6s.]

iawn, er nad heb beth siomedigaeth. Cawn yma ryw 350 o fywgraffiadau, a deallwn eu bod yn ffrwyth ymchwiliad ugain mlynedd. Yr oedd yn anmhossibl, feallai, cael argraffiad cyntaf o waith fel yma yn rhydd o wallau, ac am hyny, yr ydym yn gobeithio y bydd galwad buan am argraffiad newydd, fel y gallo yr awdwr gael cyfleusdra i ddiwygio pa frychau bynag a gaffo ynddo; a chredwn y gosodai werth mwy ar ei lyfr, pe'n fwy manwl i roi i ni ei awdurdodau.

Cawn hanes y 2,000 enwog a drowyd allan o'u bywiolaethau eglwysig trwy ddeddf Unffurfiaeth, yn 1662, yn ngweithiau Calamy, a chawn yma hanes rhai olynwyr ffyddlon iddynt. Yn 1692, fe gyhuddwyd y Dr. Daniel Williams yn ffyrnig o fod yn ffafriol i'r golygiadau Sosinaidd, fel eu gelwid, er ei fod ef ei hun yn ystyried ei syniadau yn iawn. Yn eu duwinyddiaeth, nid oedd y Presbyteriaid, ar y cyntaf, yn gwahaniaethu oddiwrth yr Annybynwyr, ond yn raddol, daethant i osod pwys ar syniadau cymmedrol, ac yr oedd hyn yn eu parotoi ar gyfer mwy o ryddid. Felly, daethant o fod yn Galfiniaid i fod yn Arminiaid, o fod yn Arminiaid i fod yn Ariaid, o fod yn Ariaid i fod yn Undodiaid. Dyna'r dadblygiad yn Lloegr a Chymru.

Enw y Dr. Daniel Williams yw y mwyaf pwysig mewn cyssylltiad â'r *Fund* Presbyteraidd, y llyfrgell yn Llundain, y Coleg yn Nghaerfyrddin, a'r Ysgoloriaethau Cymreig yn Glasgow, a cheir hanes manwl am y rhai hyn yn llyfr Mr. Jeremy. Arian y Dr. yn benaf roddes i'r rhai hyn eu bodolaeth a'u llwyddiant, a chredwn y dylai pob myfyriwr o Goleg Caerfyrddin deimlo dyddordeb yn yr hanes. Rhoddir yma restr cyflawn o athrawon y coleg, oddieithr fod enw y Parch. John Thomas, wedi hyny o Bantydefaid, ac eiddo y Parch. J. E. Jones, o Benybont-ar-Ogwr, rywfodd wedi eu gadael allan. Gweler Hanes y Coleg, gan Dr. Thomas Rees, Llundain. Ac ar ol enw y Parch. D. E. Jones, M.A., darllener 1874 yn lle 1875, a thybiwn fod rhyw wall mewn cyssylltiad ag enw Tim. Davies, 1811—13. Yn mhlith y Bywgraffiadau, ceir lluaws o rai Cymreig, a'r rhai hyny, feallai, y mwyaf dyddorol yn y llyfr. Byddai yn dda genym weled rhywun yn ymgymmeryd â chasglu hanes cyflawn o'r Cymry hyny ydynt, o bryd i bryd, wedi myned i fyny i lanw pwlpudau Seisnig. Credwn y byddai hyny yn ddangoseg o'r hyn ydyw nodwedd fwyaf arbenig ein gwlad, ac un a fyddai yn debyg o adlewyrchu clod nid bychan ar ein pobl. Gobeithiwn, gyda chaniatad y Gol., gael nodyn yn awr ac yn y man etto ar y llyfr gwerthfawr hwn. Mae rhai o'r enwau wedi bod dan sylw genym o'r blaen. Yn 1878, gwnaethom sylw ar y Proffeswr Evan Davies, Caerfyrddin, yn nodi amryw wallau sydd gan y Dr. Thomas Rees, Abertawe, mewn cyssylltiad ag ef. Mae yn wir fod E. D. wedi ymneillduo o Gaerfyrddin i Billericay, ond yn 1762, fe ymsefydlodd fel gweinidog yn Rochford, a bu yno hyd 1768, pan y rhoddodd i fyny o herwydd henaint a methiant, a dychwelodd, wrth bob tebyg, i Billericay, at ei fab Philip, lle bu farw Hydref 16eg, 1770. Fe'i ganwyd tua 1693. Bu farw y Parch. Philip Davies yn Llundain, Tachwedd 11eg, 1809. Yr oedd wedi bod yn weinidog yn Billericay 40 mlynedd. Trueni na buasid wedi rhoddi i ni fwy o hanes y Dr. John Williams (tud. 171), yr hwn oedd unwaith yn llyfrgellydd y Dr. Wil-

liams, a chyn hyny, yn weinidog yn Stamford. Fe'i ganwyd yn Llanbedr, Mawrth 25ain, 1727, a bu farw un Sul yn Ebrill, 1798. Yr oedd yn awdwr o gryn fri. Gwel "Enwogion Ceredigion," gan Gwynionydd. Cyfeiria Dafydd Llwyd ato yn ei lythyrau, ac y mae "Meyer," yr esponiwr enwog, yn ei gwoto. Rhag trethu yn ormodol ar ofod y Gol., terfynwn yn bresenol gydag un sylw a geir ar tud. 188. Yr oedd dadl yn cael ei chario yn y blaen yn y Lladin, mewn perthynas i foesoldeb y Rhufeiniaid a laddasant Julius Cæsar, a dywedwyd,—"Nec male fecerunt, nec bene fecerunt, sed inter*fecerunt*." Beth ydyw ystyr *inter* yma? Pwy rydd gyfieithad?

T. C. U.

ODLAU HIRAETH

Ar ol y diweddar Mrs. Watkin Morgan (Eos Gwawr), Baglan House, Pentre, Ystrad, yr hon a fu farw Medi 12fed, 1885.

O mor ddyrus, O mor dywyll ydyw ffyrdd Rhagluniaeth Ior,
Mae ei lwybrau Ef yn fynych yn nyfnderoedd môr pob môr;
Cymmyl duon a thywyllwch sydd o gylch ei orsedd Ef,
Ond cyfiawnder ydyw trigfa ei orseddfa yn y nef.

Cymm'rwyd Hannah heddyw ymaith oddi wrth ei theulu mad,
Gadael wnaeth yn nyffryn galar blant a phriod, mam a thad,
Hawdd yw iddynt ddweyd fel Jacob, "yn fy erbyn i mae hyn,"
Ni ddaw pelydr o oleuni i wasgaru niwl y glyn.

Dystaw yw y llais fu'n canu pan yn blentyn gyda'i thad,
Fu yn canu mor berseiniol hen alawon hoff ei gwlad—
Dystaw ydyw, ïe, dystaw—byth ni chlywir ar y llawr,
Seiniau melus, seiniau swynol a gwefreiddiol Eos Gwawr.

Llonydd, ïe, marw ydyw'r bysedd fu'n cyfeilio'r gân,
Ni symmudant, ni chwareuant mwy alawon Salem lân;
Gofyn mae ei hoff offeryn yn ei iaith, "Pa le mae'r un
Fu yn chwareu ar fy nhannau nes y llwyr annghofiai'i hun?"

Ni cheir mwy ei hoff gymdeithas ar yr aelwyd gyda'i phlant,
Y maent heddyw fel y myrtwydd, yn wywedig yn y pant;
Er i'r lleiaf yn y teulu wylo dagrau ar ei hol,
Nid oes llef na neb yn ateb—ni ddaw mami fach yn ol.

Na, maent heddyw yn amddifaid ar yr aelwyd heb eu mam,
'R hon oedd iddynt yn ddiffynfa, ac yn noddfa glyd rhag cam;
Hawdd y gallaf gydymdeimlo, hawdd y gallaf gydymddwyn
A'u hanwyl-dad yn ei drallod—collais inau'm cydmar fwyn.

I dy ofal, Ior trugarog, y cyflwynwn ef a'i blant—
Dal ei feddwl ef i fyny, dwg ef yn dy law o'r pant;
Ofer wylo a galaru—ni ddaw Eos Gwawr yn ol,
Byddwn byw, fel caffom fyned i'r gogoniant ar ei hol.

Aberaman. HYWEL CYNON.

YR ALMANAC UNDODAIDD.

MAE yr *Unitarian Pocket Almanack* am 1886 wedi dyfod i'n dwylaw, ac mae'n dda genym ei weled mewn agwedd newydd, a golwg dipyn mwy llewyrchus a blodeuog arno nag a welsom erioed o'r blaen. Cyfrol fechan ydyw, mewn cymhariaeth, ond mae'n llawn hyd yr ymylon o hyspysiaeth sydd yn ddyddorol i bob Undodwr o'r iawn ryw. Nid anfuddiol feallai fyddai crybwyll rhai o'r manylion a'r ystadegau ydynt yn gosod allan sefyllfa bresenol Undodiaeth yn y deyrnas gyfunol.

Rhif y gweinidogion yw 352, o'r rhai mae rhywfaint dros 70 heb ofal eglwysi, ond rhan fawr o'r 70 mewn llawn waith fel athrawon colegau ac ysgolion, ysgrifenyddion cymdeithasau a golygwyr papyrau, ar gweddill wedi ymroddi i alwedigaethau ereill, neu wedi ymneillduo o herwydd henaint a methiant. O'r 352, mae 18 yn preswylio yn Nghymru, ac o'r 18, dim ond dau ar hyn o bryd sydd heb ofal gweinidogaethol, sef y Parch. J. J. George, Aberdare, a John Evans, Gellionen. O'r 16 sydd â gofal eglwysi ganddynt, mae 4 yn weinidogion Eglwysi Saesneg, yn Nghaerfyrddin, Abertawe, Caerdydd, a Merthyr. Yn ngwyneb fod gyda ni yn Nghymru y pedwar gweinidog Saesneg hyn, mae'r *balance* yn cael ei gadw i fyny drwy fod gan y Saeson bedwar o Gymry yn weinidogion yn eu plith, sef J. B. Lloyd, Altrincham; T. Ll. Jones, Liverpool; E. Ceredig Jones, Bradford; a George Evans, Plymouth, heblaw un arall sydd heb ofal eglwys yn bresenol, sef J. G. Evans, Oxford.

Mae nifer y cynnulleidfaoedd yn 360, o'r rhai y mae 31 yn Nghymru. Drwg genyf sylwi fod pump o leocdd addoliad yn cael eu nodi fel yn *closed*—wedi eu cau i fyny, sef Capel Saesneg Aberdar; Bettws, ger Penybont-ar-Ogwr; Castellnedd, a Phontfanog. Mae y pump hyn, fel y mae yn gywilydd i ni fel Undodiaid Cymreig, yn agos bod y drydedd ran o'r holl gapeli Undodaidd sydd wedi eu cau yn y Deyrnas Gyfunol. Rhif yr oll yw 16, yn ol yr Almanac.

Ar dudalenau 38, &c., cawn restr o'n heglwysi yn y gwahanol siroedd. Mae Lancashire yn arwain gyda 62; wedi'n daw Yorkshire gyda 28; Middlesex a Surrey, neu Lundain, gyda 23; Cheshire, 20; County Down, yn yr Iwerddon, 19; Antrim, 16; Devonshire, 14; Warwickshire, Ceredigion, Morganwg, 12; Derbyshire, 11; Gloucester, Sussex, a Worcester, 9, &c.

Y prif sefydliadau i addysgu ein gweinidogion yw Coleg Caerfyrddin, Coleg Manchester New, Llundain, a'r Home Missionary Board, Manchester. Yn Nghaerfyrddin, yn awr, mae pedwar o ddynion ieuainc yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth, sef David Evans, Llanwnen; D. Ivor Davies, Llandybie; John Davies, a D. Ll. Jones, Llandyssul. Heblaw hyny, mae genym un yn Ngholeg Aberystwyth, sef Daniel Rees o Landyssul, ac un yn Nghaerdydd, sef W. E. George, o Aberdar. Yn Manchester New, mae 19, o'r rhai y mae dau yn Gymry—T, B. Evans, M.A., o Gaerfyrddin, a Priestley Evans o Gefncoedycymer. Yn yr Home Missionary Board, mae ar hyn o bryd 11—llai nag arferol, 'rwy'n tybied. Mae y cwbl, felly, gyda'r ychwanegiad o Mr. J. D. Jones, o Llanybyther, mor bell ag yr wyf fi mewn sefyllfa i gasglu, yn 37, ac o'r nifer hyn, mae 9 yn Gymry, yr hyn, beth bynag am bethau ereill, sydd yn *gredit* i Undodiaeth Gymreig. Dylem gofio hefyd wrth sylwi mor fychan ydyw rhif ein myfyrwyr, fod y diffyg yn cael ei wneyd i fyny gan y nifer mawr o weinidogion *ready-made* sydd yn dyfod drosodd atom yn barhaus o enwadau ereill. O'r deg a ymgymmerasant â'r weinidogaeth yn ein plith yn y flwyddyn 1885, yr wyf yn cael fod pedwar yn perthyn i'r dosparth hwn.

Wn i ddim yn iawn beth sydd yn esponio y ffaith fod gan enwad mor fychan dri o newyddiaduron wythnosol. Gobeithio mai ein hawydd am gyflawnder o lenyddiaeth, a'n serch at rydd ymofyniad, ydyw'r achos; ond yr wyf yn lled-dybied mai rhyw *grotchets* difudd, rhyw bleidgarwch sydd a fyno ag enwau, gan mwyaf, ydyw y dirgelwch wedi'r cwbl. Gan nad beth am hyny, mae genym yr *Inquirer*, yr *Unitarian Herald*, a'r *Christian Life* yn cylchynu yn ein plith, a phob un o honynt heb fawr o obaith byw, pe byddai yn gorfod sefyll ar ei draed ei hun. Paham, yn enw pob synwyr, na buasai y tri yn cael eu huno i wneyd un papyr tebyg i'r *Christian World*, a fuasai yn deilwng o'r enwad, ac yn cael cylchrediad wrth y miloedd, ac nid wrth y cannoedd, fel mae y rheol yn awr? Mae genym chwech neu saith o fisolion heblaw hyny, ac ni fyddai allan o le o gwbl, pe buasai rhai o honynt hwythau yn priodi â'u gilydd yn awr ac yn y man.

Mae genym wedi'n Yr Ymofynydd yn Nghymru—y papyr Undodaidd mwyaf galluog yn yr iaith Gymraeg, fel y clywsom y golygydd yn dweyd gydag arddeliad. Yr ydym yn credu hyny o galon, a dymunem yn wresog i annog ei gyfeillion i roddi help llaw iddo o'r newydd gyda dechreu y flwyddyn.

Dywedais yn flaenorol fod deg o weinidogion newydd wedi ymsefydlu yn ein plith yn ystod y flwyddyn 1885; ond fel mae yn drist i gofnodi, cawn fod deg o'r hen weinidogion wedi marw yn yspaid yr un amser, a rhai o honynt yn mhlith yr enwocaf ar y rhestr. Yn eu plith, cawn enw parchus yr hen dad o Faesymeillion, y Parch. D. Evans, B.A.; a'r Parch. Rees Lewis Lloyd, o Belper, mab Rees Lloyd, Kingswood, cyn hyny o Glynisgoed, ger Capel Cynon, Ceredigion. Ond rl aid ymattal. Dim ond nodyn a fwriadem, a therfynwn trwy gymmeradwyo yr Almanac yn galonog i sylw darllenwyr Yr Ymofynydd, a dweyd ei fod i'w gael oddiwrth James Black, 20, Cannon-street, Manchester. Pris iselaf, 6c. W. J.

NAPOLEON A'R COEDWR.

Yr oedd Napoleon allan ar ei geffyl, un dydd, ac amryw o'i swyddogion gydag ef, ac yn eu plith adroddwr yr hanesyn canlynol. Marchogasom i fyny at fan lle yr oeddym yn gweled coedwyr yn tori coed. Wrth sylwi ar un o honynt yn canu, trodd yr Ymerawdwr atom a dywedodd :—"Sylwch ar y dyn acw, er yn gweithio yn galed am ei fara beunyddiol, ymddengys fel yn gwbl ddedwydd."

Pan welodd y coedwr y fath nifer yn edrych arno, gwnaeth amnaid parchus, a daeth i fyny atom i holi a oeddym wedi colli ein ffordd.

"Nac ydym," ebe yr Ymerawdwr, "ond dywedwch, gyfaill gonest, beth sydd yn eich gwneuthur mor siriol, a pha faint ydych yn ei enill yn y dydd ?"

"Tri *franc* (rhywbeth yn llai na swllt yw *franc*), Syr," oedd yr ateb.

"Tri *franc*! Ac a ydych yn gallu cynnal eich hunan a'ch teulu ar hyny ? Sut yr ydych yn gwneyd, dywedwch ?"

"Gyda phleser, Syr, os deuwch gyda mi ychydig y ffordd hon. Gyda thri *franc*, yr wyf nid yn unig yn cynnal fy hunan a'm teulu, ond yn gosod peth allan ar log, ac yn talu fy hen scor."

"Esponiwch," ebe'r Ymerawdwr.

"Yn ewyllysgar, Syr. Yr wyf yn cadw fy ngwraig a'm teulu ; yr wyf yn gosod arian allan ar log trwy gadw y plant yn yr ysgol, ac yn talu ymaith ychydig o'r hen scor trwy gynnal fy nhad a fy mam. Felly, gallwch weled, Syr, mai hawdd y gallaf fod yn ddedwydd."

"Campus! Yr ydych yn ddyn da. Hwriwch, dyma *napoleon* (darn aur llai na sofren) i chwi," ebe'r Ymerawdwr, gan daflu bathodyn iddo. Cadwch yn ddirgel yr oll yr ydych wedi ei ddywedyd wrthyf. Fi yw yr Ymerawdwr. Ar berygl fy anfoddloni, a chael eich cospi, edrychwch na ddywedwch i neb hyd oni weloch fy ngwyneb gant gwaith."

"Boed felly, Syr," ebe'r coedwr.

Trodd Napoleon ben ei geffyl, a dychwelodd at ei gyfeillion. Y nos hono, ymddangosai yn fyfyrgar iawn, a gofynodd General Rapp a oedd rhywbeth annymunol wedi dygwydd. "Nac oes," ebe yntau, "ond cwrddais â dyn, y boreu yma, yr hwn a ddywedodd wrthyf sut, ar dri *franc* y dydd, yr oedd yn cadw ei deulu, yn gosod arian allan ar log, ac yn clirio ei hen ddyledion. Foneddigion," ebe'r Ymerawdwr drachefn, "chwi a'm boddlonwch yn fawr, os gallwch egluro i mi ystyr yr hyn a ddywedodd."

Yr oeddym oll yn awyddus i foddio yr Ymerawdwr ; a chan ein bod yn gwybod iddo fod yn ymddyddan â'r coedwr yn y boreu, beth ddarfu i ni wneuthur ond cychwyn i ffwrdd yn foreu dranoeth ; ac wedi cael gafael yn y coedwr, gofynasom iddo a oedd yn gwybod pwy fu'n ymddyddan ag ef y dydd o'r blaen. "Gwn," ebe yntau, "cefais yr anrhydedd o ymddyddan â'r Ymerawdwr."

"Beth ddarfu i chwi ddywedyd wrtho ?"

"Esgusodwch fi, foneddigion. yr wyf dan orfod i beidio dywedyd."

Ac meddai un o'r cwmni, "Rhoddaf i chwi 50 *napoleon*, os dywedwch wrthyf fi.

Meddai'r dyn, "Ni feiddia' I ddim."

"Cewch gant, os byddwch mor ewyllysgar a dywedyd," ebe'r un cyfaill drachefn.

Wedi munyd neu ddau o ystyriaeth, meddai y coedwr, "Gosodwch yr arian yn fy llaw, ac mi a ddywedaf wrthych."

Gosodwyd yr arian yn ei law; ac wedi edrych yn ofalus ar bob darn, dywedodd wrthym beth oedd wedi pasio rhyngddo a'r Ymerawdwr. Wedi i ni esponio y dychymmyg, llefodd yr Ymerawdwr :—

"Dygwch y coedwr gerbron yn fyw neu yn farw!"

Awd ar ei ol, a dygwyd ef gerbron yr Ymerawdwr digofus.

"Sirrah, sut yr ydych wedi beiddio tori yr addewid a wnaethoch i mi?"

"Syr," ebe'r coedwr, yn dawel iawn, "nid wyf wedi tori eich gorchymmyn."

"Sut, adyn," ebe Napoleon, "yr ydych yn beiddio dywedyd celwydd wrthyf?"

"Syr," ebe y coedwr, "dywedasoch wrthyf nad oeddwn i ddywedyd wrth neb nes gweled eich gwyneb gant gwaith." Ac yna, yn bwyllog iawn, gosododd ei ddwylaw yn ei logellau, a gosododd y darnau aur, un ar ol y llall, o flaen yr Ymerawdwr, a'r *pen* tuag i fyny. "Dyna, Syr, onid wyf wedi gweled eich gwyneb gant gwaith?" Chwerthinodd Napoleon yn uchel, rhoddodd i'r coedwr *slap* ar ei gefn, gan ei alw yn *clever fellow*, a gwnaeth ef yn gadben yn y fyddin, lle y profodd ei hun yn deilwng o'i ffawd dda. C. F.

NODYNAU GWASGAROG.

PREGETHAU Y NADOLIG.

Mae yr *Inquirer* yn barnu, oddiwrth yr adroddiadau yn y *Daily News*, fod y pregethau a draddodwyd ar ddydd Nadolig, yn Llundain, yn cynnwys llai o ofergoeledd nag arfer, a bod arwyddion sicr fod y byd yn myned yn mlaen. Nid oedd son yn yr adroddiadau, o leiaf, am y plentyn-Dduw, Duw wedi ei eni mewn preseb, Duw yn cael ei eni ac yn cael ei sugno, Jehofa-Iesu, Iesu fy Nuw, &c. Yr ydys yn raddol yn pasio o'r ffurf is i ffurf uwch o synied a meddwl, a phregethir yr Ymgnawdoliad megys Duw yn cael ei amlygu mewn cnawd. Amlygir Duw yn y greadigaeth, amlygir ef hefyd mewn dyn,ac yn benaf oll yn yr Iesu. Y dyn goreu yw yr amlygiad dysgleiriaf o Dduw. Yr oedd yr hen Hindwaid yn addoli y cwmmwl, yr wybr las, y tân, yr haul, &c., eithr yn unig fel cyfryngau gweledig y foment i amlygu yspryd tragwyddol y tucefn. Un Duw gydnabyddent, ond un yn amlygu ei hunan mewn mil o ffyrdd—y nefoedd yn dadgan ei ogoniant, a'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwylaw, &c. Fe ddylai Cristionogion, bellach,

wybod mai un Duw sydd, ac mai nid yr Iesu yw hwnw; nad yw yr Iesu ond yr amlygiad o hono. Mae geiriau Twm o'r Nant, "Bardd y Byrddau" fel y galwai ei hun mewn llawer ffordd ac mewn llawer man, yn cael eu cydnabod fel efengyl yn Nghymru hyd heddyw:—

Mari wen ydoedd yn dala Duw 'r lluoedd,
Ac yntau 'n dal nerthoedd ffurfafen y nefoedd,
A thiroedd, a moroedd, a Mari;
Hi ddaliai 'i hanwylyd, a'i phriod, a'i phroffwyd,
Ei thad a'i mab hefyd, ei Duw a'i brawd hyfryd,
Yn cym'ryd ei febyd yn fabi!

T. C. U.

I. H. S.

Esponiad cyffredin y llythyrenau yma yw, "Jesus Hominum Salvator," geiriau Lladin yn golygu Iesu Iachawdwr Dynion. Tebyg iawn mai i'r offeiriaid yr ydym i briodoli yr esponiad; sicr yw mai hwy sydd yn awr yn gwneuthur fwyaf tuag at ei gadw yn ngwydd y byd. Ac etto, hwy ddylent fod yn gwybod gwell, gan y proffesant ragoriaeth uwchlaw pregethwyr yr Annghydffurfwyr, ac nid yn anfynych gwawdiant anwybodaeth yr Annghydffurfwyr. Ar ol cau allan yr Annghydffurfwyr oddiwrth fanteision addysg, mae hytrach yn myned yn rhy bell eu cyhuddo wedi'n o anwybodaeth. O leiaf, esponiad annghywir ydyw yr uchod. Tair llythyren gyntaf y Groeg am Iesu oeddynt ar y cyntaf, sef IHC·OUC. Hen ffurf o'r llythyren S yw y drydedd. Nid oes genym un gwrthwynebiad, fodd bynag, i'r *symbol* fel yr esponiant hwy ef, ond i ni gael cydnabyddiaeth hefyd o'i wir ystyr; ond y mae gormod, yn cael ei wneuthur o arwyddluniaeth, yn ein tyb ni. Er enghraifft, pan ddywedir fod llun pysgodyn yn golygu y gair *ic·th·us*, y gair Groeg am bysgodyn, a bod y gwahanol lythyrenau yn y gair hwn yn golygu y Groeg am I·esu G·rist, M·ab D·uw, I·achawdwr; neu yn Saesneg, "Jesus Christ, Son of God, Saviour;" neu pan ddywedir fod y ffurf trionglog (*triangle*) yn esponiad o'r drindod, neu lun y groes, yn cynnwys holl gynllun y Trefn Cadw o'r Codwm yn Eden hyd at y Codi yn Nghrist. T. L. R.

JENKIN JONES, LLWYNRHYDOWEN.

Mae Mr. W. D. Jeremy, yn ei lyfr newydd, yn dywedyd fod Jenkin Jones, Llwynrhydowen, wedi bod yn yr ysgol gyda'r enwog Barch. Samuel Jones, M.A., Brynllywarch, un o'r 2000 a drowyd allan o'u bywioliaethau trwy "Ddeddf Unffurfiaeth," 1662. Yr oedd Mr. Jones cyn hyny yn offeiriad Llangynwyd, ger Penbont-ar-Ogwr, ond cyrhaeddodd ei enwogrwydd, yn benaf, fel athraw ysgol Brynllywarch. Bu farw Mr. Jones, Medi y 7fed, 1697, yn 70 mlwydd oed, ac o'r

braidd y credwn fod y Jenkin Jones uchod yn ddigon hen i fod yn yr ysgol ar y pryd. Wrth gwrs, nid wyf yn gwybod, am nas gwn beth oedd oed Mr. Jones yn myned i'r coleg i Gaerfyrddin yn 1721, ond ymddengys i mi yn hollol annhebygol. Os bu yno Jenkin Jones, gall mai Jenkin Jones, Llwynrhys, oedd. Yr oedd ef, o leiaf, gryn lawer yn hynach na Jenkin Jones, Llwynrhydowen, ond nis gwn pa bryd y ganwyd yntau. Bu farw Jenkin Jones, Llwynrhys, yn 1725. Derbyniwyd ef yn aelod eglwys yn y Cilgwyn yn 1695, ac yr oedd hyny tua dwy flynedd cyn marwolaeth Samuel Jones. Darllenwn yn "Enwogion Ceredigion" fod Philip Pugh wedi bedyddio Margaret, ei ferch hynaf, yn 1709. Wedi'r cwbl, nid oes sicrwydd mai efe oedd dysgybl Mr. Samuel Jones. A all rhai o'ch darllenwyr roddi help i benderfynu y pwnc hwn?

Mae genym i ddiolch i'r Parch. Wm. Geo. Jenkins, ficer Llandyssul, am y dyfyniad hwn allan o lyfr yr Eglwys, "1742—June 4th, Jenkin Jones." Ni roddir ei oedran ar amser ei farwolaeth.

T. C. U.

GWEDDILLION MARWOL.

Yr wyf yn cofio darllen, ychydig yn ol, yn Yr Ymofynydd—ïe, yr wyf yn darllen Yr Ymofynydd, ac yn cydnabod fy mod yn dysgu llawer oddiwrtho, er heb gytuno â'r oll sydd ynddo—ond yr wyf yn cofio darllen ynddo fath o wrthdystiad yn erbyn ymadrodd a glywir, weithiau, mewn angladdau, sef "gweddillion marwol," ac nid wyf yn amheu nad ydynt yn agored i wrthwynebiad. Nid ydynt ond amlygiad anmherffaith mewn cyssylltiad â'r dirgelwch mawr y gwyddom mor ychydig am dano. Nid yw geiriau ar y goren, feallai, ond yn rhoi cynnrychiolaeth anmherffaith iawn o'r gwirionedd pur; yn bwrw cysgod anmhennodol iawn o'r prydweddau y safant am dano. Mae cysgod dyn ar y llawr yn ddarlun o'r dyn, ond nid oes neb a ddywed ei fod yn ddarlun cyflawn. Gwell genyf fi yr ymadrodd "gweddillion marwol" nâ'r ymadrodd glywais I yn ddiweddar, a chlywir yn fynych ei gyffelyb, "yr hen bobl sydd, bellach, yn llwch ac yn lludw." Beth ond y "gweddillion marwol," beth ond y pridd sydd yn cael ei ddychwelyd i'r pridd, y lludw i'r lludw? Dim ond yr hyn sydd weddill o'r dyn, nid y dyn ei hunan, sydd yn myned i'r pridd. Mae yr ysprydd, a hwnw yw y dyn ei hunan, yn myned at Dduw. Nid "yr hen bobl" a gludir genym i'r fangre weledig olaf, ond y wisg a'n galluogodd eu hadnabod a'u caru dros dymhor eu daearol hymdaith. Nid y dyn yw ei gorff, ac nis trosglwyddir ond y corff i'r pridd; y corff sydd yn ymgymmysg â'r llwch a'r lludw; mae y dyn wedi meddiannu y "corff a fydd," y llygredig wedi gwisgo anllygredigaeth, a'r marwol wedi gwisgo anfarwoldeb.

Q. Q.

GWAED A THAN.

Byddai yn ddyddorol cael erthygl yn YR YMOFYNYDD ar ystyr grefyddol y ddau air yma. Beth yw yr olwg boblogaidd arnynt? A ydynt yn cael eu cymmeryd yn llythyrenol, ac os felly, pa sut? Beth yw y defnydd ysgrythyrol o honynt? A yw yr ysgrythyrau yn rhoddi cymmaint o *brominence* iddynt â'r athrawiaethau poblogaidd? "Blood and Fire" yw *motto* Byddin Iachawdwriaeth, ac y mae yn ddiamheu eu bod yn ffurfio rhan bwysig yn mhregethau, gweddiau, ac emynau prif enwadau ein gwlad. Edrychwn ni, fel Undodiaid, ar yr ymadroddion fel ymadroddion ffugrol, neu gymhariaethol, yn unig, ac nid oes genym yr un cydymdeimlad ag ymddygiad y Crist'nogion hyny a wnant faesydd ein cyfnodolion a'n crefydd yn debyg i faes y gwaed ar ol rhyfel. A oes rhywun o'ch gohebwyr dysgedig a gymmer y mater yma i fyny i'w drin yn YR YMOFYNYDD? Q. Q.

FFYDD IESU.

Yr oedd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn eithaf iawn pan y dywedodd, yn y Nottais, mai peth mawr i'r Cristion oedd cael ffydd yr Iesu. Ffydd Iesu yw y peth i osod pwys arno; ond ffydd *yn yr* Iesu yw pob peth yn ngolwg yr eglwysi, a pheth allanol ydyw hwnw, ffydd yn y "cynllun cadw." Heb ddibrisio y ffydd yn Nghrist, mwy pwysig yn fy ngolwg i yw *ffydd Crist*—dyna'r ffydd i wneuthur gwaith, ac O nad allem gael hono, ffydd fel ffydd Crist. Credwch yn Nghrist, credwch yn Nghrist; dyna'r gorchymmyn gawn ni gan y pregethwr, a beth ydym i olygu wrth hyny? Derbyn ei berson, credu yn ei natur ddwyfol, proffesu ffydd yn ei haeddiant iawnol—nage, meddaf finau, meithrin ei ysbryd, efelychu ei ffyddlondeb, sychedu am ei frwdfryddedd, a myned oddiamgylch fel efe i wneuthur a allom o ddaioni yn y byd. Ffydd Crist yn Nuw, ffydd Crist mewn dyn, ffydd Crist mewn rhinwedd, daioni, sancteiddrwydd, ffydd Crist mewn anfarwoldeb—dyna'r efengyl i'w phregethu. Dichon ffydd yn Nghrist wneuthur meudwyaid o honom, a'n harwain i ogofeydd a monachdai; ond ffydd Crist wedi iawn reddfu ynom, a'n hanfona ni allan fel cenadon (neu angylion—ystyr angylion yw cenadon) Duw yn awyddus am Iachawdwriaeth y byd.

R. JOHNSON.

BEDDAU WEDI EU GWYNU.

Ceir llawer o ymadroddion ar lafar gwlad a dybir eu bod yn Ysgrythyrol, a byddai yn ddyddorol cael casgliad o honynt. Cofus genym glywed am hen wraig dduwiol o'r ganrif o'r blaen, yr hon oedd mor gyfarwydd yn Llyfr y Ficer ag oedd yn ei Beibl, ac adroddai o'r blaenaf i ategu ei hymresymiad mor fynych ag o'r olaf, a hyny heb

fod yn sicr p'un oedd p'un, ac fe ddywedir fod yr offeiriaid, lawer o honynt heddyw, yn fwy cyfarwydd â'r Llyfr Gweddi nag a r Beibl; ond gan nad beth am hyny, yr hyn oeddym ar fedr ei ddywedyd yw hyn—nad yw yn unol â'r Ysgrythyr i son am "feddau wedi eu *gwyngalchu*, oddiallan yn edrych yn hardd, ond oddi mewn," &c. Edrycher i Efengyl Matthew, xxiii. 27, a darllenir am "fed lau wedi eu *gwynu*, y rhai sydd yn ymddangos yn deg oddi allan, ond oddi mewn," &c. "Whited sepulchres" geir yn y Saesneg. O ba le, gan hyny, y daeth yr ymadrodd sydd mor gyffredin ar lafar gwlad? Ai oddiwrth y syniad mai yr un o ran ystyr yw *gwynu* a *gwyngalchu*, neu ynte a oes sail arall? Dywedir fod y beddau yn ngwlad Canaan yn arfer cael eu lliwio yn wyn unwaith mewn blwyddyn. Ond yn Meibl y Dr. Morgan, a gyhoeddwyd yn 1588, darllenwn fel yma, "Canys tebyg ydych chwi i feddau wedi eu *gwyn-galchu*, y rhai a welir yn brydferth oddiallan," &c., ac yma, wrth bob tebyg, y dysgodd ein hynafiaid, oesoedd yn ol, yr ymadrodd, yr hwn sydd wedi glynu mor gyndyn wrthym hyd y dydd heddyw. Etto, cofier nad yw y gair *gwyngalchu* ddim yn yr adnod er ys blynyddau meithion bellach. Cawn yn yr Actau xxiii. 3, "Duw a'th dery di, bared wedi ei wyn-galchu." Ond yn Dr. Morgan, "Duw a'th deru di, bared gorwyn. S. N. S.

FFOLINEB ESAU.

Mae Voysey yn rhywle wedi awgrymu fod yn well ganddo Esau na Jacob; nas gwyddom ond ychydig am Esau, ond fod hwnw gan mwyaf yn dda; fod genym lawer o hanes Jacob, a bod llawer o hyny yn ddigon canolig. Rhaid addef, fodd bynag, mai ffwl gwirion fu Esau wrth werthu ei enedigaeth fraint, ac ymddengys yn neillduol felly oddiar y safle luddewig. Yr oedd wedi bod allan yn hela, ac wedi dychwelyd yn wancus gan eisieu bwyd. Tebyg iawn ei fod wedi ymresymu'r pwnc yn ei feddwl. Feallai naddo, yn ddiystyr y gwneir ffolineb fynychaf; ond os do, fe ddywedodd fel hyn, feallai:—Mae arna'i eisieu bwyd tost, ac y mae ar Jacob eisieu fy ngenedigaeth fraint I. Fydd hono o ddim gwerth i mi, os bydda'i farw o newyn. Pa ddyben son am enedigaeth fraint, ni wnaiff dori'm newyn. Ac etto, gallem ddysgwyl iddo ddywedyd—"Dim am y byd! Am gant siel o aur? Dim am y byd!" Efe oedd i fod yn offeiriad y teulu, iddo ef oedd yr hawl i'r cyfammod ag Abraham, ac o'i lwynau ef yr oedd yr addewid am y Messeia. Ni fu erioed y fath ragolygon ardderchog. Yr oedd ei enedigaeth fraint yn bob peth iddo. Ond yr oedd yn mron marw! Yr heu ffwl gwirion, nid oedd yn fwy felly na'i frawd. Gadawodd i'r anifail yndde fod yn drechaf. Gwerthodd ei fraint fawr am un saig o fwyd. Ac etto, nid oedd Esau yn ddyn drwg o gwbl. Yr oedd yndde lawer o rinweddau pwysig; ond yr oedd yndde un peth yn ddiffygiol. Ac y mae digon o ffyliaid tebyg iddo i'w cael heddyw. Pan fyddo dyn yn aberthu ei les ysprydol er mwyn chwantau'r cnawd, y mae yn gwerthu ei enedigaeth fraint; pan fyddo

dyn yn aberthu heddwch y dyfodol er mwyn pleserau presenol, y mae yn euog o ffolineb Esau; pan y mae

Yn *rhodio*—yn NGHYNGHOR—YR ANNUWIOLION,
Yn *sefyll*—yn FFYRDD—PECHADURIAID,
Yn *eistedd*—yn EISTEDDFA—GWATWARWYR,

mae yn gollwng o'i afael y dyogelwch sicraf rhag gofid, yr help goreu i dangnefedd, a'r gobaith ardderchocaf yn wyneb holl awelon croes mewn bywyd—mewn gair, mae yn ymddwyn mor ffol ag Esau, ac yn gwerthu ei enedigaeth fraint. J. T. D.

Y CYFRYNGWR.

Adroddir ystori am hen wraig tra thywyll yn talu ymweliad ag un o'r eglwysi Pabyddol ar y Cyfandir, yn ymgrymu mewn anwybodaeth o flaen delw Beelzebub yn lle delwau y seintiau, ac yn ateb pan geisiwyd egluro ei chamsyniad iddi, nad oedd ddim gwahaniaeth, ei fod yn dda bod ar *good terms* gyda phob ochr! Pan byddwyf yn darllen, neu yn clywed am rai pethau sydd yn cael eu dywedyd weithiau gan Gristionogion, yr wyf yn ffaelu peidio meddwl am yr hen wraig. Er enghraifft, pan ddesgrifir yr Iesu fel yr ail berson yn y Drindod lân Fendigaid yn eiriol dros bechadur, ac yn dadleu gwerth ei waed, er ceisio ei achub oddiwrth *ei Dad!* Ei Dad? Yr wyf yn gofyn, Beth, onid camsynied fel yr hen wraig yr ydys? O nage, nage, meddir, nid oddiwrth y Tad, ond oddiwrth y Ddeddf. Y Ddeddf? Beth, ynte, yw y ddeddf? A yw y Ddeddf yn berson, ac yn gallu cadw plant y Tad mewn caethiwed? A yw y Ddeddf yn rhywbeth—yn allu—ar wahan oddiwrth ewyllys y Tad? A yw Cristionogion am ddyrchafu Deddf i safle Tynghedfen y Paganiaid, i'r hon oedd Iau a'r duwiau ereill oll yn gorfod ymostwng? A ydyw Deddf, fel yr honir gan rai gwyddonwyr, i gymmeryd lle Duw, bellach? Deddf yn gwneuthur y peth hyn, a deddf yn gwneuthur y peth arall—deddf yn rheoli y bydysawd? A yw deddf felly i gymmeryd lle Duwdod? Nid yw Deddf ond y dadganiad dynol o'r modd y mae Duw yn cario ei waith yn y blaen yn y byd. Fel mewn natur, felly mewn gras, gocheler gosod llythyren farw yn lle y Duw byw; a gocheler gwisgo y Duw "trugarog a graslawn" dan rith enw "Deddf" mewn priodoleddau a berthynant i Beelzebub! T. C. U.

GWNEWCH EICH GOREU.

Yr oedd maengerfiwr wrth ei waith yn ceisio gwneuthur llun allan o ddarn o farmor tra anmherffaith i'r pwrpas, pan y galwodd rhywun ei sylw at y ffailh, gan ddywedyd ei bod yn llwyr anmhossibl i wneuthur delw perffaith allan o ddefnydd mor anmherffaith. "Y

mae hyny yn eithaf gwir," ebe yntau, "ond y mae wedi ei anfon i mi i wneuthur llun o hono; ac yn gymmaint ag nas gallaf wella'r defnydd, rhaid i mi ymfoddloni ar wneuthur y goreu y gallaf o hono."

"Y fath drueni," ebe dyn wrth ffermwr bychan oedd newydd fyned i mewn, "fod yr ysgall wedi rhedeg dros yr holl le!" "Eithaf gwir," ebe yntau; "ond pe wnawn i grintachu hyd farw, ni wnai yru'r ysgall i ffwrdd; felly, mi geisiaf trwy lafur diwyd i ddwyn yr ysgall o'r tir, a cheisio gwell trefn."

Yr oedd *nursery man* yn myned i blanu rhyw nifer o goed bychain, rhai yn union, rhai yn geimion, ac fel hyn yr ymresymai:—"Fe dŷf y rhai union i fod yn goed braf heb lawer o sylw ar fy rhan I; ond mi edrychaf, oni allaf, gydag ychydig ofal, wneuthur rhywbeth o'r rhai ceimion. Bydd llawer mwy o drafferth gyda nhw, yn ddiamheu, na chyda'r lleill; ond am hyny, rhydd i mi fwy o foddlonrwydd, os llwyddaf."

AROSWCH GAEL GWELED.

Pan fyddo fy machgen yn holi, yn holi,
  Yn holi pa fodd, a pha le, a pha bryd,
'Rwy'n teimlo ei fod ar f' amynedd yn trethu,
  Wrth holi a holi, a holi o hyd;
'Nol ateb yr holi, 'dyw'r ateb ond rhoddi
  Yr allwedd i holi sy'n mron di-ben-draw,
Ac felly, er mwyn llonydd, yr wyf yn dweyd beunydd,
  "Aroswch ychydig, gael gwel'd beth a ddaw."

Y geiriau'n ddifeddwl a ddysgais i 'mhlentyn
  Ddysgasant wers felus bwrpasol i mi,
Pan gefais i wedi'n fy myd mewn modd sydyn
  Yn duo gan storm a ymdorai o'm dau tu;
Mi glywais y bachgen yn adrodd yn llawen,
  Mewn ysbryd chwarëus, gan gydio'n ei law,
Ddoeth ateb i'r holi a wnaethai y babi,
  "Aroswch ychydig gael gwel'd beth a ddaw."

Fel cerydd mewn amser o law angel tyner,
  Oedd geiriau melusber fy machgen mwyn, mad,
Os yw ffyrdd y nefoedd yn rhedeg i'r moroedd,
  "Aroswch gael gweled" yw awgrym doeth tad;
Can's beth y'm oll beunydd ond plantos aflonydd,
  A'n holi, a holi, a holi'n ddi daw;
Y Tad yn ei gariad awgryma yn wastad,
  "Aroswch am enyd gael gwel'd beth a ddaw!"

Manion a Hanesion.

Dowlais. Nos Nadolig cynnaliodd cynnulleidfa Dowlais eu *Soiree* cyntaf yn yr ysgoldy, pan yr oedd lluaws yn bresenol. Gwasanaethwyd wrth y bwrdd gan Mrs. Williams, —— Cottage, Mrs. Davies, Mary Ann St., a'r Misses Lewis a Evans. Areithiwyd gan Mri. Lewis, Jones, Thomas, Owen, a J. Jenkins. Ar ol clirio y bwrdd, treuliwyd y noson trwy ddarllen, canu, dadleu, a chymmeryd rhan mewn chwareuon difyrus. Y mae clod mawr yn ddyledus i Mrs. Lewis a Miss Evans am eu ymdrechion i gael *Soiree* lwyddiannus. Cafodd y bobl ieuainc gymmaint o flas yn y *Soiree* cyntaf nes y maent wedi penderfynu cynnal un etto yn ystod gwyliau y Pasc. Yr ydys wedi cynnal dau gyfarfod llenyddol yn ystod y ddau fis diweddaf, ac y mae yn dda genym ddweyd eu bod wedi troi allan yn llwyddiant perffaith. Yn y diweddaf o honynt chwareuodd Mr. R. Howells yn fedrus dros ben. Allan o 13 o ymgeiswyr am y wobr roddodd Mr. Lewis am araeth ddifyfyr, Mr. Whitby oedd y goreu, a Mr. T. Evans yn ail oreu.

Llwynrhydowen. Cynnaliwyd cylchwyl flynyddol Ysgolion Sul y Llwyn a'r Bwlch yn hen gapel Llwynrhydowen ar ddydd Nadolig. Cyfarfod canu ac adrodd oedd, ac yr oedd yn gyfarfod llwyddiannus yn mhob modd. Yr oedd y cynnulliad yn fawr, tuhwnt i ddim a welsom o'r blaen ar achlysuron cyffelyb, ac yr oedd nodwedd y gweithrediadau yn bob peth y gallesid dymuno. Yn wir, ni chlywodd yr ysgrifenydd ragorach adrodd nag a gafwyd oddiwrth rai a berthynent i'r ddwy ysgol. Adroddwyd rhai darnau gyda llawer mwy o ddawn ac effeithioldeb nag aml i bregeth ydym wedi glywed o'r pwlpud gan wyr y colegau. Hai atì, ynte, fechgyn a merched, os ydych wedi gwneyd yn dda y tro hwn, mae lle i wella er hyny, ac mae genych flwyddyn o'ch blaen. Dylem longyfarch arweinwyr y canu hefyd, sef Evan Jones a John Jones, Thomas Thomas a John Thomas am eu hymdrechion llwyddianus i wneyd y cyfarfod mor gymmeradwy i'r dorf oedd yn bresenol.—G. J.

Llandyssul. Prydnawn dydd Nadolig cynnaliwyd Gwyl De flynyddol Ysgol Sul y Graig. Gweinyddwyd wrth y byrddau yn y Vestri gan Mrs. Thomas, Richmond House, Miss Evans, Tanycoed, Mrs. Jones, Wind st., Mrs. James, Cerdin Villa, Mrs. Evans, Charles st., &c. Yn yr hwyr cafwyd Cyngherdd yn y capel, yr hwn oedd yn mhob ystyr yn gweddu i gapel, ac yn deilwng o'r llafur a ddangoswyd i barotoi ar ei gyfer. Yr oedd y rhan gyntaf yn cael ei gwneyd i fyny o *Solos* gan Miss Bertha Howell, Gellifaharen, Mr. David Evans, Board School, Pontshan, a Mr. John Jones, Felin, Rhydowen. Chwareuwyd *Solos* a *Duetts* ar y *Pianoforte* gan Mrs. James, Cerdin Villa, Miss Davies, Alma House, a Miss Jones, Richmond Villa. Ar ol hyny, perfformiwyd *Service of Song*, sylfaenedig ar fywyd John Knox, gan Gor y Capel, o dan arweiniad medrus Mr. Evan Evans. Rhwng y gwahanol ddarnau cerddorol, darllenwyd hanes bywyd Knox gan Meistriaid David Evans, Board School, Pontshan, Tom Evans, Barley Mow, John Evans, Cyfreithiwr, a John Davies, Alma House, yn awr o Goleg Caerfyrddin. Cyfeiliwyd ar y *Pianoforte* gan Mrs. James, Cerdin Villa. Yr oedd y cynnulliad yn weddol dda ag ystyried fod cyfarfodydd ereill o'r un natur mewn llawer o fanau ereill yn y dref. Ymadawodd pawb yn ddiamheu wedi eu llwyr foddloni, ac wedi cael dwy awr o wledd wrth fodd eu calonau.—M. S.

Gadawodd y Parch. M. K. Shermerhorn yr Undodiaid, ac ymunodd â'r Theistiaid er mwyn cael mwy o ryddid. Y mae yn awr wedi ymuno â'r Eglwys Esgobyddol yn yr Amerig, a gosod ei hunan yn llyfetheiriau y 39 erthygl, Credo Nicea, &c., &c.!!

Mae yr offeiriad, yn rhanau gwledig ein gwlad, yn fynych, yn greadur balch iawn. Wedi myned i mewn i fwthyn hen wraig unwaith, ceisiwyd ganddo "eistedd i lawr." Yr oedd, mae yn debyg, yn dysgwyl cyfarchiad mwy parchus, a dywedodd yn fawreddog iawn, "Wraig, gwas yr Arglwydd ydwyf fi." "Os felly," ebe'r weddw dlawd, "chwi fyddwch yn debyg i'ch Meistr—yn ostyngedig, ac eisteddwch i lawr."

Mae Llywodraeth yr Unol Daleithiau wedi penderfynu dodi Mormoniaeth i lawr, neu, o leiaf, yr agwedd hono o honi sydd yn caniatau lluosogrwydd o wragedd.

DYNION mawrion yw y rhai a welant fod y gallu ysprydol yn gryfach nâ'r un gallu materol; mai meddyliau a lywodraethant y byd.—*Emerson.*

Mae y *Christian Life* yn appelio am danysgrifiadau, fel y gallo anfon copiau rhad i weinidogion nad ydynt Undodiaid. A charai neb o'n darllenwyr ninau wneuthur gwaith cyffelyb a thalu am gopiau o'r YMOFYNYDD i'w hanfon allan i wneuthur gwaith cenadon? Carem wneuthur YR YMOFYNYDD yn gyfrwng newyddion da lle bynag yr elo.

Yr oedd Tom Evans, yr ymladdwr, yn fwy poblogaidd yn Rhydychain, ugain mlynedd yn ol, nâ Jowett, Powell, Smith, na neb o'r proffeswyr enwocaf a lanwent gadeiriau y Brif Ysgol. Ond y mae enw Tom Evans heddyw wedi pydru, tra mae enwogrwydd y lleill yn cynnyddu.

"Gwers yr etholiad," ebe Esgob Chichester, yw, fod y llafurwr gwledig yn teimlo fod yr Eglwys wedi ei ddiraddio, ac y mae wedi penderfynu peidio goddef hyny. Mae Eglwysi gwledig yn fwy partiol nâ'r rhai mewn trefi. Gelwir yr Eglwys yn 'Eglwys y dyn tlawd,' a gyrir ef i eistedd i'r corneli." Teimla'r Esgob fod yma rybudd i'r Eglwys.

Y mae Efengylydd yn Llundain yn dywedyd fod 90 yn y 100 o Gristionogion Llundain na welid ddim o'u heisieu pe byddent farw gyda'u gilydd, oddieithr mewn materion arianol. A ydyw ein dyledswyddau crefyddol tuag at ein heglwysi wedi eu gorphen trwy dalu ein cyfran arianol yn unig? Paham nad yw ein holl aelodau yn teimlo dyddordeb mwy yn ngwahanol gangenau gwaith ein cynnulleidfaoedd? Pa fodd mae eu cael i deimlo mwy? Byddai gwell llewyrch ar ein heglwysi pe byddai pob aelod yn teimlo ei ddyledswydd ar y mater yma, ac yn ei gyflawnu.

CENFIGEN.

O fagu ffrwyth cenfigen,—dyry lid
Oer i ladd ei pherchen;
Och! annoeth frad a chynhen
I weision hedd is y nen.—H. M.

CYDWYBOD DAWEL.

Bron ddifraw yw cydwybod dawel,—dafn
O fywyd i'r angel;
A digon o foddion fel
I 'rafu byd o ryfel.
Trebanos. H. MORGAN.

Y neidr a amddifadir o'i cholyn, neidr ydyw wedi'r cwbl; ac felly'r pechadur fyddo wedi ei gau oddiwrth brofedigaethau, nid yw yn sant.

Mae Plato yn cymharu'r enaid i lyfr, a'r pump synwyr i'r ysgrifenyddion.

Ni all neb ddyrchafu ei hun uwchlaw y byd oddieithr iddo ymaflyd yn rhywbeth uwchlaw ei hun.

Fel bo'r fam y bydd y plant,
O dyfiant ac o dafod.

Anhawsderau yw y meini â'r rhai y mae holl dai Duw yn cael eu hadeiladu. —*Faber.*

Dywed Esgob L'erpwl na fyddai Cristionogaeth Lloegr (beth am Gristionogaeth Cymru?) ddim gwaeth pe cawsai yr esgobion eu symmud o Dy yr Arglwyddi.

Nid yw Mr. Spurgeon yn cymmeradwyo y Cyfieithad Diwygiedig o'r Testament Newydd. O bossibl, mai y rheswm o hyny yw, am fod yr adnodau canlynol wedi eu gadael allan:—Marc xvi. 16; Actau viii. 37. Mae yn well ganddo yr hen gyfieithad gyda'i holl wallau—rhyw 30,000—mewn amseryddiaeth, hanes, a duwinyddiaeth.

Dysgwn ar y ddaear y pethau hyny a'n galwant i'r nefoedd.—*St. Jerome.*

Marwgofion.

Tachwedd 19, yn 78 ml. oed, John Jones, Pantyronen, plwyf Llanwenog. Yr oedd wedi colli ei olygon er's llawer o flynyddau bellach, ac felly yr oedd yn analluog i fyned oddiamgylch rhyw lawer; etto, gyda'r eithriad o'r golled hon, fe fwynhaodd iechyd cyffredin hyd o fewn i ychydig amser i'w farwolaeth. Dygodd ei golled gydag amynedd mawr, ac ymostyngodd yn dawel i'r hyn a ystyriai ef oedd y drefn ar ei gyfer. Gadawodd weddw a phlant i alaru ar ei ol,

Caffent nerth i beidio galaru yn ormodol. Claddwyd ef yn Capelygroes ar y Llun canlynol, a gweinyddwyd ar yr achlysur, yn absenoldeb Mr. Thomas trwy afiechyd, gan Mr. Davies, o Alltyblacca.—A.

Rhagfyr 18, yn 64 ml. oed, Margaret Thomas, Gwarffynnon, gynt Rhosdafarn, Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Llun canlynol yn mynwent Bwlchyfadfa, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. T., Pantdefaid. Gadawodd briod a dau o blant mewn galar ar ei hol.

Rhagfyr 22, yn 15 mis oed, Mary Elizabeth, plentyn Benjamin a Mary Davies, Gibson Row, Penydarren. Ar y 26, cludwyd ei gweddillion i gladdfa yr Hen-dy-Cwrdd, Cefn, pryd y gwasaethwyd gan weinidogion Cefn a Dowlais. Par yr amgylchiad hwn i ni deimlo nad yw pob blodeuyn i ddadblygu i'w ogoniant yn y byd hwn.

Rhagfyr 25, yn Rhydcoedyfoel, Llandyssul, yn 8 mis oed, Frances Hannah, baban John a'r diweddar Frances Davies, Sychdy. Y mis o'r blaen yr oedd genym y gorchwyl trist o gofnodi marwolaeth ei brawd bychan. Nodded a dyddanwch y Tad mawr fyddo gyda'r teulu trallodus hwn, sydd wedi gweled ymadawiad tri o'u hanwyliaid mewn yspaid llawer llai nâ blwyddyn. Claddwyd y fechan prydnawn dranoeth yn ngladdfa capel newydd y Llwyn, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

Rhagfyr 27, yn 44 ml. oed, o'r *diabetes*, James Jenkins, 4, North St., Penydarren, Yn ystod ei oes darfu i Mr. Jenkins dramwyo llawer o'r byd presenol, ond ar y 27ain gosodwyd yr hyn oedd farwol o hono yn y llwch yn nghladdfa yr Hen-Dy-Cwrdd, Cefn, tra y darfu i'w yspryd groesi yr Iorddonen ddofn i'r byd mawr tragywyddol. Gadawodd y trancedig weddw a phump o blant. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. J. H. Davies.

Rhagfyr 31, o glefyd y galon, Jonathan Davies, Gwastad, diweddar Coedmorfawr, ger Llanbedr, yn 73 ml. oed. Bu farw yn ei gadair freichiau wrth y tân, mewn modd hynod sydyn ac annysgwyliadwy. Yr oedd wedi bod yn Llanbedr y dydd y bu farw, a hyny ar ei draed. Ond yr ydym yn cael ar ddeall nad oedd yn teimlo mor gryf ag arferol drwy'r dydd. Yr oedd wedi bod yn dyoddef oddiwrth *bronchitis* ychydig fisoedd yn ol, ac nid ydym yn meddwl ei fod wedi bod yn gwbl iach byth ar ol hyn. Nid oes ond ychydig amser oddiar pan oedd genym y gorchwyl gofidus o ysgrifenu am farwolaeth ei anwyl chwaer. Teimlai ein cyfaill yn alarus iawn pryd hwnw wrth roddi corff un oedd mor anwyl iddo yn y pridd, ond erbyn heddyw y mae yntau yn gorwedd wrth ei hochr yn y fonwent oer. Pan y mae dyn wedi dybenu a'r ysgol yn y byd hwn, yr ydym yn dueddol iawn o geisio penderfynu y defnydd a wnawd ganddo o'i wahanol ddysgyblaethau. Ond rhaid addef mai gwaith anhawdd yw i ddynion iawnfarnu bywydau a chymmeriadau eu gilydd hyd y nod pan mor ddiduedd ag sydd ddichonadwy. Yr ydym yn dueddol i fyned yn rhy bell ryw ochr—mewn canmol neu gollfarnu. Ond gwell ar les y dyn ei hun yw meddwl yn rhy dda na meddwl yn rhy ddrwg am ei gyd-ddynion. Nad beth oeddent wendidau a ffaeleddau gwrthddrych ein cofiant, yr oedd ar lawer o ystyron yn ddyn a llawer o ragoriaethau yn perthyn iddo. Dyn gwirion, diniwed, a dirodres oedd, a dyn o alluoedd meddyliol cryfion, ac yr oedd wedi cael manteision goreu ei oes a'r gymmydogaeth i'w gwrteithio. Deallwn ei fod unwaith wedi ei fwriadu i'r weinidogaeth Undodaidd, ond pallodd ei iechyd a chaniatau hyn. Nid ydym yn credu ei fod erioed yn fwriadol wedi gwneyd cam â neb mewn masnach, ac nid oedd wrth reswm am gael cam ar law neb. Efelychwn ei rhinweddau, a cheisiwn gadw oddiwrth ein gwendidau a'n ffaeleddau. Gadawodd i alaru ar ei ol ddwy chwaer, un brawd, ac un nith, heblaw perthynasau a chyfeillion ereill. Modd gaffont i alaru yn gymmedrol. Ar ddydd ei angladd, y Mawrth canlynol, daeth torf luosog i hebrwng ei gorff i'r bedd yn mynwent Brondeifi. Pregethwyd yn y ty gan weinidog y capel uchod. Gwasanaethwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. Jno. Davies, Allyplacca.

Ionawr 11, Benjamin Jones, Glan-nant, Rhydowen, yn 62 ml. oed, Bu yn dihoeni am amser maith cyn i'r amser terfynedig ddyfod oddiamgylch. Claddwyd ef yn mynwent Pantdefaid y dydd Mercher canlynol, a phregethodd T. T. yn y capel. Gadawodd weddw a phedwar o blant i alaru ar ei ol, ond ni a hyderwn nid yn anobeithiol.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

Derbyniadau.—J.J., Llandyssul; T.Ll., Porthcawl; T.D., Talsarn; D.D., Lampeter; D.C., Llwyn; D.P., St. Clears; J.J., Llandilo; W. J., Pitcot Cottage; M.E., London; G.J., Brechfa; B.B., Treherbert; W.J.E., Carmarthen; Jones Brothers, Aberavon; J.J., E.G., Aberdare; E.J., Carmarthen; M.T., Llangors; E.J., Ceginan; D.E., Troedyrhiw; H.M., Gellionen; Miss W., London; D.T., Treorky; J.D., Capelgroes; T.J., Cwrtnewydd; J.L., Dowlais; W.G., Pontyberem; W.D., Cribin; W.L., Pontypridd; J.C., Cardiff.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Meirion Cottage,
ABERDARE.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

Mae llawer o ddarllenwyr presenol Yr Ymofynydd wrth bob tebyg nad ydynt erioed wedi clywed son am y Gymdeithas uchod. Cymdeithas ydyw at gynnorthwyo dynion ieuainc i gael addysg rhagbarotoawl ar gyfer y weinidogaeth. Drwg genym ddywedyd fod y *Funds* yn bresenol yn isel iawn, ac felly yr ydym yn apelio at garedigrwydd yr hen danysgrifwyr yn ogystal â rhai newydd, (mae eisieu rhai newydd) fel y gallom helpu ymgeiswyr. Mae y Gymdeithas wedi bod o wasanaeth da yn y gorphenol, gall cyfeillion helpu iddi 'fod o wasanaeth etto yn y dyfodol. A gawn ni gan y cyfeillion ddwyn y mater gerbron y cynnulleidfaoedd? Ysgrifenydd y Gymdeithas yw y

Gol.

Derbyniadau.—Cribin, per Rev. W. Davies, £1 1s.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on Application.* ☜